

Arholiadau Mynediad

Bydd Arholiadau Mynediad Prifysgol Aberystwyth, fel arfer, yn cael eu cwblhau mewn dogfen 'Word', a chyflwynir ar-lein gan ddefnyddio ein hamgylchedd dysgu rhithwir, Blackboard. Isod ceir amlinelliad o bob cam o'r broses. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynefino â'r wybodaeth a ddarperir.

Os ydych yn sefyll yr arholiadau yn eich ysgol/coleg, trafodwch y trefniadau gyda'ch Swyddog Arholiadau ymlaen llaw, i sicrhau eich bod yn gwybod pryd a ble y cynhelir yr arholiadau.


Ysgogi eich cyfrif TG Prifysgol Aberystwyth

Bydd pob ymgeisydd yn cael enw defnyddiwr a chyfrinair Prifysgol Aberystwyth yn ystod wythnos gyntaf fis Chwefror. Bydd angen i chi ysgogi eich cyfrif **cyn dyddiad yr arholiadau** (ni fydd angen ysgogi cyfrif ebost newydd). Bydd dolen ysgogi yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad e-bost a roddwyd ar eich ffurflen gais UCAS. **Wedi ichi roi eich cyfrif ar waith, nodwch y manylion mewngofnodi a'r cyfrinair - bydd angen nhw ar ddiwrnod yr arholiadau.** Cysylltwch ag gg@aber.ac.uk gydag unrhyw broblemau.


Ar ddiwrnod yr arholiadau

Byddwch yn cael copi caled o'r papur arholiad gan aelod o staff. **Peidiwch â chysylltu â'r we nes bod yr arholiad wedi gorffen a'ch bod yn barod i gyflwyno eich papur.** Bydd angen i chi:

1. Agor dogfen Word ar eich cyfrifiadur bwrdd gwaith a chadw'r ddogfen yn syth yn y fformat canlynol (CYFENW_ENW CYNTAF_PWNC). Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'ch dogfen yn rheolaidd.
2. Ar frig y dudalen nodwch yn glir: eich enw llawn, ysgol a theitl llawn y pwnc.
3. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhifo/labelu eich atebion yn glir (e.e. 'Cwestiwn 1A').
4. Pan fyddwch yn barod i gyflwyno eich papur arholiad, agorwch borwr ar eich peiriant (Chrome neu Firefox) a mewngofnodwch i [Blackboard](#) gan ddefnyddio'r enw defnyddiwr a chyfrinair a ddarparwyd i chi.
5. Fel rhan o'r wybodaeth i fewngofnodi, byddwch yn gweld sgrin 'More Information required' fel yr isod



6. Cliciwch ar 'Skip for now (14 days until this is required)
7. Dewiswch **Mudiadau** o'r ddewislen ar y chwith.




8. Cliciwch ar 'Arholiadau Ysgoloriaeth Mynediad – Entrance Scholarship Exams 2023'

BB-AU-0075-O


Arholiadau Ysgoloriaeth Mynediad - Entrance Scholarship Exams 2023

[Multiple Leaders](#) | [More info](#) ▼

9. Os ydych yn cyflwyno eich aseiniad yn Gymraeg dewiswch yr eitem ddewislen **Arholiad Ar-lein (Cymraeg)**. Os ydych yn cyflwyno yn Saesneg dewiswch yr eitem ddewislen **Online Exams (English)**




10. Byddwch yn gweld nifer o bwyntiau cyflwyno
11. Ewch i'r pwynt cyflwyno cywir ar gyfer eich pwnc. Er enghraifft:



12. Cliciwch ar y man cyflwyno a bydd ffenestr newydd yn agor
13. Dewiswch **Upload Submission**

> Essay 1 (Turnitin submission point) ?

Upload Submission



14. Bydd y ffenestr lanlwytho ffeil yn agor.

Submit File ×

Upload Review Complete

Upload Submission Text Input Cloud Submission ▾


Drag and drop or select a file from your device.

Submission Title Untitled

Submission File ? Choose file No file chosen

Upload and Review


15. Gallwch lusgo a gollwng eich ffeil i'r man cyflwyno, neu dewiswch **Choose file** i chwilio drwy eich storfa ffeiliau
16. Bydd y **Submission Title** yn llenwi'n awtomatig gydag enw eich ffeil. Gallwch newid hwn drwy ddileu'r testun ac ailenwi'r ffeil os dymunwch.
17. Dewiswch **Upload and Review**
18. Bydd eich ffeil yn lanlwytho a byddwch yn gallu gweld rhagolwg o dudalen gyntaf y cyflwyniad:



19. Os ydych chi'n hapus mai dyma'r ffeil gywir dewiswch **Submit to Turnitin**.


Noder: Bydd **arholiadau Mathemateg a Mathemateg Bellach** yn cael eu cwblhau ar bapur llinellau, yn hytrach nag ar y cyfrifiadur. Bydd y papurau hyn yn cael eu casglu can y goruchwylwyr, eu sganio, a'u hanfon trwy e-bost atoch fel y gallwch gyflwyno'r papur trwy Turnitin, ym mhresenoldeb goruchwylwr.

20. Gwnewch yn siŵr fod eich papur wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Dylech gael y neges ganlynl:



Noder: Dylech lawrlwytho eich derbyniad Digidol fel y dangosir yn y ddelwedd uchod a'i arbed fel tystiolaeth o'ch cyflwyniad. Os nad ydych yn gweld y neges werdd, gofynnwch i'ch goruchwylwr am gymorth.

21. Allgofnodwch o Blackboard.



Arfer Da yn yr Arholiadau Mynediad:

Sicrhewch eich bod yn darllen [Polisi ar Ymddygiad Da ac Annheg ar gyfer yr Arholiadau Mynediad](#). Byddwch yn ymwybodol bod Turnitin yn cynhyrchu 'adroddiad tebygrwydd' a fydd yn tynnu sylw at enghreifftiau o debygrwydd rhwng eich gwaith ac unrhyw waith a

gyhoeddwyd yn flaenorol (gan gynnwys ffynonellau rhyngwyd). Bydd y Bwrdd Arholi yn ymchwilio i unrhyw debygrwydd o'r fath.

Canlyniadau:

Bydd canlyniadau'n cael eu e-bostio i ymgeiswyr a'u Swyddogion Arholiadau o fewn 4-6 wythnos wedi'r arholiadau.